

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Gorffennaf 2il 2019 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Maldwyn Jones (is-gadeirydd), Gwenda Morris, Eifion Davies, Dewi Pritchard, Gary Thomas, Eilir Rowlands, Alwyn Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

i) Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rita Jones, Gwynedd Jones, Iolo Evans, Gwenda Evans a Meilir Jones.

ii) Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

iii) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mehefin a chafwyd yn gywir.

iv) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

v) Materion vn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Archwilio asedau'r Cyngor.

Cafwyd cadarnhad fod y llochesi bws yn Llandderfel a Cefnddwysarn wedi cael eu harchwilio ac nid oedd angen unrhyw waith cynnal a chadw.

b) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

i) Gwaith tarmacio A494 - derbyniwyd cadarnhad fod gweithio dros nos yn ymarfer maent yn ei ddefnyddio mewn ardaloedd prysur i leihau anghyfleustra, tagfeydd a chwynion. Roedd y namau a gyfeiriwyd at yn y cyfarfod blaenorol wedi cael ei marcio yn barod at y gwaith clytio roeddynt wedi ei wneud mewn darpariaeth i'r rhaglen arwisgo a oedd ar fin cymryd lle ar y A494.

ii) Arwydd pentref Sarnau – cafwyd cadarnhad fod arwydd newydd wedi cael ei archebu.

iii) Llwybr cyhoeddus Berth, Frongoch - cafwyd cadarnhad fod y swyddog llwybrau cyhoeddus wedi trafod gyda'r perchennog ynglŷn â thynnu'r arwydd 'Dim Mynediad' i lawr.

iv) Wal Mynwent Llanfor – cafwyd cadarnhad fod y Peiriannydd wedi asesu'r wal ac nid oedd yn ystyried ei fod yn beryglus ar hyn o bryd.

v) Torri glaswellt ar hyd ochrau'r ffyrdd ac o gwmpas y pentrefi - cafwyd cadarnhad for dau gontractwr wedi cael eu penodi i dorri'r gwair gwledig ac y byddant wedi cychwyn y gwaith torri ganol mis Mehefin gyda tharged i gwblhau o fewn chwe wythnos.

vi) Mynwent Llanfor – cafwyd cadarnhad fod y perchnogion wedi gwneud trefniadau i gau'r twll a gwnaed ganddynt wrth gefn yr eglwys.

c) Cynghorydd newydd i Ward Llanfor.

Roedd y clerc wedi derbyn cadarnhad gan Gyngor Gwynedd nad oeddynt wedi derbyn cais am etholiad ar gyfer y sedd wag ac y byddai'n bosib i'r Cyngor symud ymlaen i gyfethol aelod newydd. Cytunwyd i drafod y mater ymhellach ym mis Medi.

ch) Arian Diffib CFFI Cwm

Adroddodd y clerc fod y diffib nawr yn ei le a derbyniwyd siec gan y Clwb tuag at gostau gosod y ddifib.

d) Pwyllgor Cylch Meithrin Maesywaen.

Bu i Rita Jones a'r clerc gyfarfod a swyddogion y pwyllgor i drafod eu cais i ail leoli'r parc chwarae yn Frongoch. Cyflwynwyd y cynlluniau a'r wybodaeth i'r cynghorwyr. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gefnogi'r cais ar y ddealltwriaeth mae pwyllgor y Cylch Meithrin oedd yn cymryd y cyfrifoldeb ariannol a'r cyfrifoldeb o reoli'r gwaith ail leoli gan ymgynghori gyda phwyllgor rheoli'r parc chwarae yn ystod y broses.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Amrywiol.

i) Parc Cenedlaethol Eryri - Gwahoddiad i'r Cyngor fynychu un o'r 'Nosweithiau Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r Cynghorau Tref a Chymuned'.

ii) Cyngor Gwynedd - Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd ar gyfer mis Gorffennaf.

- iii) Llywodraeth Cymru – hysbysiad o'r gwaith a fyddai yn cael ei wneud ar y A494 rhwng 4/7/19 – 21/7/19.
- iv) Holiadur Prifysgol Lerpwl - cais gan fyfyrwr i gwblhau holiadur ynglŷn â sut mae ail gartrefi yn effeithio ar gymunedau gwledig.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-
NP5/63/LB215 a NP5/63/LB215A - Tynnu llenni dur rhychiog ac ail doi gyda llechi, ail bwyntio a gosod ffenestri newydd. Atgyweirio toiled allanol. Tŷ Uchaf, Frongoch.
C19/0477/04/LL – Gosod 5 o gyrtiau bugeiliaid tymhorol ynghyd a thoiledau. Tir gyferbyn a Cae Coryn, Llandderfel.

vi) Materion Ariannol.

a) Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.

b) Diweddarau manylion y cyfrif banc

Roedd y Cyngor wedi cael cais gan y banc i ddiweddarau eu manylion ond gan nad oedd y clerc wedi cael ei henwi ar y cyfiri nid oedd yn bosib iddi ei gwblhau. Cytunwyd i ychwanegu ei henw i'r cyfrif ar gyfer materion fel hyn a chwblhawyd y ffurflen berthnasol.

c) Derbyniadau.

Derbyniwyd £124.12 gan CFFI Cwmtirmynach (diffib Neuadd Mynach).

ch) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyflog a chostau'r clerc, TWE, Rhys Jones Trydanwr (diffib Neuadd Mynach) a Craig Tree Services (torri a chlirio canghennau mynwent Frongoch).

vii) Materion lleol.

a) Coed Mynwent Frongoch – roedd lori wedi taro yn erbyn cangen ac roedd wedi disgyn i'r ffordd. Roedd gweithlu Cyngor Gwynedd wedi clirio'r malurion ond bu rhaid i'r clerc ymgynghori gyda'r cadeirydd a'r cynghorwyr cyn galw ar Craig Tree Services i ddod allan i ddiogelu'r safle.

b) Cytunwyd i basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

i) Cyffordd pentref Llanfor i mewn i'r A494 - roedd canghennau coed ar yr ochr chwith y gyffordd yn amharu ar welededd y gyrrwyr.

ii) Pont Llandderfel ar yr B440, cangen coeden yn sownd o dan y bont - mae'n debyg iddi gael ei chario lawr yr afon yn ystod y tywydd garw yn y gaeaf a chwestiynwyd os yr oedd yn rhoi straen ar y bont.

iii) Clirio/lledu ochr ffyrdd gwledig ardal Llandderfel - bu i weithwyr y Cyngor ddefnyddio peiriant i glirio ochr y ffyrdd gwledig yn ardal Cefnddwysarn a Llandderfel gan adael y gwastraff o flaen giatiau i gaeau, anheddau ayyb ac roedd wedi creu anawsterau i'r perchnogion.

iv) Ffordd Bethel drosodd am Llandderfel - roedd canghennau coed yn dod drosodd i'r ffordd ac angen eu tocio.

v) Mynwent Llandderfel - derbyniwyd cwynion am safon gwaith y contractwr torri glaswellt. Cytunwyd i drafod y mater gydag ef a phwysleisio fod teuluoedd yn ymweld â'r fynwent yn rheolaidd a bod angen sicrhau fod y glaswellt yn cael ei dorri'n rheolaidd ar gweddillion yn cael ei glirio'n syth.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Medi 3ydd yn Neuadd Llandderfel am 7.30 y.h.